Blwyddyn Newydd Dda!

Hoffwn ddymuno blwyddyn newydd dda i chi i gyd! Gobeithio gaethoch chi wyliau Nadolig braf ac eich bod yn barod ar gyfer tymor prysur arall o ddigwyddiadau a phrofiadau cyffrous. Hoffwn hefyd ymestyn croeso cynnes iawn i'r disgyblion a'u teuluoedd sydd wedi ymuno â chymuned yr ysgol y tymor hwn! Byddwn yn parhau i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion ar Class Dojo ac yn ein cylchlythyr pythefnosol. Cofiwch ddilyn cyfrif Instagram newydd yr ysgol!

Happy New Year!

I would like to wish you all a happy new year! I hope you had a wonderful Christmas break and are ready for another busy term of exciting events and experiences. I would also like to extend a very warm welcome to the pupils and families who have joined the school community this term! We will continue to celebrate our pupils' successes on Class Dojo and in our fortnightly newsletter. Remember to follow the school's new Instagram account!

Clybiau Allgyrsiol

Hoffwn dynnu eich sylw at amserlen ein clybiau allgyrsiol ar gyfer tymor y Gwanwyn, sydd wedi ei rannu ar Class Dojo eisoes. Bydd y clybiau yn dechrau wythnos nesaf ac mae ychydig o newidiadau i'r amserlen ers y tymor diwethaf. Mae croeso i chi gysylltu ag athro dosbarth eich plentyn os ydyn nhw'n bwriadu aros i unrhyw un o'r clybiau. Diolch.

Extracurricular Clubs

I would like to draw your attention to our extracurricular timetable for the Spring term, which has been shared with you on Class Dojo. The clubs will start next week and there are a few changes to the timetable since last term. You are welcome to contact your child's class teacher if they would like to stay for any of the clubs. Diolch.

Parti Bollywood Pwll Coch!

Bydd parti Bollywood yn yr ysgol ar brynhawn dydd Gwener, 14/02/25! Bydd hwn yn gyfle cyffrous i fwynhau bwyd, dawnsio a drymio Indiaidd! Dewch yn llu!

Pwll Coch Bollywood Party!

There will be a Bollywood party at the school on Friday afternoon, 14/02/25! This will be an exciting opportunity to enjoy Indian food, dancing and drumming! We can't wait to see you all there!

Eisteddfod Yr Urdd 2025

Rydyn ni'n gyffrous iawn i ddechrau ein paratoadau ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd eleni. Bydd yr athrawon dosbarth yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chi maes o law. Hoffwn dynnu eich sylw at y rhestr o ddyddiadau allweddol isod:

The Urdd Eisteddfod 2025

We are very excited to start our preparations for this year's Urdd Eisteddfod. The class teachers will share more information with you in due course. I would like to draw your attention to the table of key dates below:

13/02/25	Eisteddfod Offerynnol Instrumental Eisteddfod
13/03/25	Eisteddfod Ddawns Dance Eisteddfod
08/03/25	Eisteddfod Gylch Local Eisteddfod
05/04/25	Eisteddfod Sir Regional Eisteddfod
26/05/25 - 31/05/25	Eisteddfod Yr Urdd (Parc Margam) Urdd Eisteddfod (Margam Park)

Cwrs Coginio i Rieni/ Gofalwyr

Mae Menter Caerdydd yn gobeithio cynnal cwrs coginio i rieni a gofalwyr dros gyfnod o bedair wythnos, gyda'r sesiwn gyntaf wythnos nesaf! Er mwyn sicrhau llwyddiant y cwrs mae'n bwysig bod digon yn mynychu'r sesiwn ac felly gofynnwn eich bod yn cysylltu â Jade o Fenter Caerdydd I gofrestru neu am sgwrs bellach os oes diddordeb gennych!

Cooking Course for Parents/ Guardians

Menter Caerdydd are hoping to deliver a cookery course for parents and carers over a period of four weeks, with the first session next week! In order to ensure the success of the course it is important that enough attend the session and therefore we ask that you contact Jade from Menter Caerdydd to register or for a further chat if you are interested!



Ysgol Gymraeg Pwll Coch – Teulu mawr ŷm ni i gyd!

Cylchlythyr Pythefnosol – Fortnightly Newsletter

10/01/25

Diwrnodau di-wisg ysgol / Non-uniform days	Cyfleoedd i rieni a gwarcheidwaid/ Parental Engagement	Profiadau a Digwyddiadau/ Experiences and Events
07/02/25 Lliwiau Cymru / Welsh Colours (Dydd Miwsig Cymru/ Welsh Language Music Day)	**17/01/25** Holiadur Lles/ Wellbeing Questionnaire	**16/01/25** Canolfan yr Urdd/ Urdd Residential Blwyddyn 4
21/02/25 Lliwau Llys/ House Colours (Eisteddfod Ysgol/ School Eisteddfod)	**10/01/25** Sesiwn i rieni gyda'r Nyrs Ysgol/ Drop-in session with the School Nurse	
11/04/25 Diwrnod di-wisg ysgol/ Non-uniform day		**16/01/25** Pêl rwyd cymysg 5&6/ Mixed netball
		03/02/25 Dydd Celfyddydau Glantaf i Fl 6 Performing Arts Day in Glantaf for Yr 6
		06/02/25 Pêl rwyd merched 5&6/ Girls' netball
	24-27/03/25 Nosweithiau Rhieni/ Parents' Evenings	**07/02/25** Dydd Miwsig Cymru/ Welsh Language Music Day

	14/02/25 Parti Bollywood Party	**06/03/25** Diwrnod y Llyfr/ World Book Day
		21/03/25 Diwrnod Trwynau Coch/ Red Nose Day
		24/03/25 Nofio Bl4 Swimming
		07/04/25 Rygbi 5&6 Rugby
		10/04/25 Rygbi TAG Rugby Bl3&4
		10/04/25 Rygbi TAG Rugby Merched 5&6 Girls

Dyddiadau HMS 2024-25 INSET Dates
Dydd Llun / Monday 03/03/25
Dydd Llun / Monday 21/07/25
Am restr o ddyddiadau tymor ysgol 2024-25, cliciwch yma! For a list of 2024-25 term dates, click here!

Teithiau Preswyl 2024-25 Residential Trips
Blwyddyn 4 – Bae Caerdydd/ Cardiff Bay 16/01/25 - 17/01/25